# LEWIS, THOMAS (1671? - 1735), gweinidog gyda'r Bedyddwyr

**Enw:** Thomas Lewis
**Dyddiad geni:** 1671?
**Dyddiad marw:** 1735
**Rhiant:** John Lewis
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Bedyddwyr
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Benjamin George Owens

Ganwyd tua 1671, yn fab ac etifedd John Lewis, bonheddwr tiriog a Bedyddiwr o'r Glascwm a welsai lawer o ddioddef yng nghyfnod yr erledigaeth. Ymaelododd y mab, fel ei dad o'i flaen, gyda'r Bedyddwyr yn Llanllieni, o gwmpas 1692 neu o leiaf cyn 1694, a bernir iddo ddechrau pregethu yn fuan wedi hynny. Yr oedd wedi gadael Llanllieni cyn 1707, ac wedi casglu Bedyddwyr dwyrain Maesyfed at ei gilydd yn eglwys yn y Glascwm a New Radnor. Bu'n llafurus yn eu plith, a dywedir yn ystadegau'r Dr. John Evans (1715) fod ganddo gynulleidfa o 400. Yn 1728 penodwyd ef a Thomas Evans, brawd Caleb Evans, gweinidog y Pentref, Maesyfed, yn ddosbarthwyr y ' Baptist Fund ' yng Nghymru. Bu farw yn 1735, a'i gladdu mewn mynwent yn y Glascwm a roddasid i'r eglwys gan ei dad.

## Awdur

**Benjamin George Owens**

## Ffynonellau


Llyfr eglwys Llanllieni a hanes yr eglwys gan Joshua Thomas yn Ll.G.C.

Joshua Thomas, *Hanes y Bedyddwyr ymhlith y Cymry: o amser yr Apostolion, hyd y flwyddyn hon: yn ddwy ran* (1778)

*Hanes y Bedyddwyr yn Nghymru*

Jones, *The History of the Baptists in Radnorshire* (1895)


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734495


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu